

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 4 MEDI 2023

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB, DYDD LLUN, 4 MEDI 2023, AM 10:00.

Presennol

Y Cyngorydd A Williams – Cadeirydd

H T Bennett	F D Bletsoe	P Davies	RM Granville
S J Griffiths	M Jones	RL Penhale-Thomas	T Thomas
AJ Williams			

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M L Hughes a/ac G Walter

Swyddogion:

Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Carys Lord	Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Paul Miles	HR Service Centre Manager
Martin Morgans	Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Kate Pask	Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad
Alex Rawlin	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

79. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cyng Heidi Bennett fuddiant sy'n rhagfarnu o ran eitem 9 ar yr Agenda gan ei bod yn cynrychioli ei chyflogwr fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

80. **CYMERADWYO COFNODION**

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 5 Medi 2022, 27 Hydref 2022, 15 Rhagfyr 2022, 18 Ionawr 2023 a 2 Mawrth 2023 fel cofnod gwir a chywir.

81. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23**

PENDERFYNWYD: Gohiriwyd yr adroddiad i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2 ar 18 Medi 2023 am 10am, pan fyddai Aelodau'r Pwyllgor hwn yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

82. **CYNLLUN STRATEGOL Y GWEITHLU**

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y Cynllun Strategol drafft y Gweithlu drafft 2023-2028.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Yr heriau a'r gallu ym maes Adnoddau Dynol (AD) a'r defnydd o'r model partner AD wrth gyd-gynhyrchu Cynlluniau Cyflawni.
- Effaith gweithio hybrid a newid demograffig deinamig ar broffil y gweithlu, darparu gwasanaethau a datblygu polisi AD.
- Y farchnad recriwtio gystadleuol ar hyd coridor yr M4 a'r angen am delerau ac amodau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.
- Goruchwyliaeth rheolwyr o'r Cynlluniau, mewnbwn gan grwpiau Undebau Llafur a pherthnasoedd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.
- Cefnogaeth ar gyfer lles staff, salwch ac absenoldeb staff, a lefelau ymgysylltu yn yr arolwg staff.
- Cyfraddau throsiant a swyddi gwag, amrywiaeth a Chynllun Gwarant Cyfweiliad y Cyngor.
- Gweithio'n hybrid a gallu'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn a'r plattform digidol sydd newydd ei lansio.
- Y galw a'r disgwyliadau am wasanaethau'r Cyngor, Cyfeiriadau Aelodau ac a ellid defnyddio offeryn dadansoddol i nodi themâu cyfeiriadau.
- Y rhagolygon o recriwtio rhyngwladol a gweithio gydag ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch eraill.
- Pwysigrwydd cynllunio olyniaeth a pharhad.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr Eitem nesaf, y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Argymhellodd y Pwyllgor fod y graffeg gylchol ar frig tudalen 13 o'r ddogfen *Cyflawni gyda'n Gilydd, Ein Cynllun Strategol y Gweithlu 2023-2028* (tudalen 175 o becyn Agenda cyhoeddus y Pwyllgor) yn dangos canrannau'r staff sy'n gweithio ym mhob un o bum maes yr awdurdod, hefyd yn adlewyrchu lefel y swyddi gwag neu gyflawnder y gweithlu ym mhob Cyfarwyddiaeth. Mewn perthynas â chyfradd trosiant staff, argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod yr un dudalen hefyd yn adlewyrchu cyfradd trosiant cyffredinol y staff nid dim ond dechreuwyd newydd yn gadael o fewn eu blwyddyn 1af (hyd at 31 Mawrth 2023).
2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y cyfrifoldeb dros oruchwyllo corfforaethol a'r posibilrwydd o broses dameidiog tuag at fonitro a chyflawni'r Cynllun. Argymhellodd y Pwyllgor felly y dylid ystyried sefydlu grŵp strategol AD i gynnwys Swyddogion o bob rhan o'r awdurdod a chynrychiolwyr Undebau Llafur i fonitro a gyrru'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn ei flaen a'u bod yn adrodd i'r CCMB.
3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg ffocws ar ddinasyddion o fewn y Cynllun ac argymhellodd fod offeryn dadansoddol y Porth yn cael ei ddatblygu / symud ymlaen cyn gynted â phosibl er mwyn gwerthuso'r meysydd anfodlonrwydd a themâu sy'n codi o gyfeiriadau gan Aelodau ac ymholiadau

cwsmeriaid ynghylch materion a ailadroddir, er mwyn llywio'r Cynllun Gweithlu. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, argymhellodd y Pwyllgor eu bod yn cael Sesiwn frifffio i Aelodau ynghylch galluoedd dadansoddol y Porth.

a gofynnodd y Pwyllgor:

4. Am wybodaeth am sut mae strwythur y gweithlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac a yw ei lefelau rheoli yn nodweddiadol o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

A allai myfyrwyr o sefydliadau addysg uwch eraill, yn enwedig Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, gael mynediad at y Cynllun Graddedigion Mentro a oruchwylir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd .

83. **TARGEDAU CYNLLUN CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno'r targedau perfformiad blynyddol arfaethedig ar gyfer 2023-24 ar gyfer y dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol (CPDP) sy'n cefnogi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Yr angen am eglurder a chysondeb yn y naratifau targed gan gyfeirio'n benodol at y targedau digartrefedd ac ail-alluogi.
- Pa mor gyraeddadwy yw targedau 100% a phwysigrwydd adlewyrchu anawsterau gweithredol.
- Y sail resymegol ar gyfer targedau is na'r perfformiad presennol.
- Targedau cynllunio, tai fforddiadwy a chymdeithasol, y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill, eiddo gwag a chamau angenrheidiol tuag at Strategaeth Carbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030.
- Ffigyrau diweithdra a rhagolygon busnes a chyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd â'r awdurdod drwy ddulliau digidol.
- Targedau yn ymwneud ag adolygiadau staff a chydymffurfiaeth ar draws adeiladau gweithredol.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr Eitem nesaf, y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD : Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet a Swyddogion, gofynnodd y Pwyllgor am:

5. Ail edrych ar y naratif yn y Rhesymeg dros Dargedau er mwyn sicrhau cysondeb, i adlewyrchu'n well y rhesymau pam fod targed wedi cynyddu neu ostwng yn sylweddol ac i gynnwys gwybodaeth gryno am amgylchiadau'r newid.

Ystyried symud yn raddol oddi wrth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol statig o blaid Canlyniadau Amcan a Chanlyniadau Allweddol sy'n gyrru targedau uchelgeisiol, realistig a chymesur.

84. **GWYDNEWCH TGCH**

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch seilwaith TGCh y Cyngor a chynigion i liniaru risgiau yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Cynlluniau parhad busnes ac adfer y Cyngor oherwydd bygythiad o ymosodiad seiber neu golli data.
- Rhesymau dros y toriad diweddar a'r posibilrwydd o gynyddu gwasanaethau gan wasanaethau cwmwl i sicrhau parhad busnes.
- Digonolrwydd gwybodaeth cwsmeriaid a chyllideb i gynnal gwasanaethau yn achos methiant gweithredol.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD : Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet a Swyddogion, gofynnodd y Pwyllgor am:

Gopïau o'r Cynlluniau Parhad Busnes TGCh sy'n benodol i'r Gwasanaeth ac yn gyffredinol, er gwybodaeth.

85. **ENWEBIADAU PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF MORGANNWG**

Cyflwynodd y Swyddog Sgrïwtini yr adroddiad, a'i ddiben oedd:

- a) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau craffu arfaethedig ar y cyd a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Morgannwg;
- b) Gofyn i'r Pwyllgor nodi y bydd pum Aelod o'r Pwyllgor yn cael eu henwebu ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg;
- c) Gofyn i'r Pwyllgor nodi'r enwebiadau a wnaed yn ei gyfarfod blaenorol ar 24 Gorffennaf 2023; a
- d) Gofyn i'r Pwyllgor enwebu tri Aelod o'r Grŵp Llafur i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi enwebu'r Aelodau Grŵp Llafur a ganlyn i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg:

Y Cyngorwyr Richard Granville, Simon Griffiths a Martin Hughes.

86. **DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL**

Yn dilyn trafodaeth fanwl ac ystyriaeth o Adroddiad y Rhaglen Waith i'r Dyfodol (FWP):

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ei Raglen Waith Gychwynnol yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a restrir isod, nodi'r FWPs ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiad C, D ac E, a nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau B, F, G a H:

Gofynnodd y Pwyllgor:

a) Bod y canlynol yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr eitem *Cynlluniau Gweithredu Monitro Strategaeth y Gweithlu* a drefnwyd ar y Blaenraglen Waith ar gyfer 14 Rhagfyr 2023:

- Data yn ymwneud â bylchau yn y gweithlu ac anghenion yn y dyfodol.

b) Bod y canlynol yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr eitem *Cynllun Gwella Rheoli Perfformiad* a drefnwyd ar y Blaenraglen Waith ar gyfer 23 Hydref 2023:

- Manylion y pedwar argymhelliad a'r camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â phob un (Cynllun Gweithredu)
Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch yr argymhellion yn ymwneud â chywirdeb gwybodaeth am berfformiad a blaenoriaethu dadansoddi data
- A fydd adroddiad ôl-arolygiad neu ail-ymweliad â chyfrifoldeb y Cyngor i ymateb/adborth unrhyw gamau a gymerwyd

a gofynnodd y Pwyllgor i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru gael eu gwahodd i fod yn bresennol i graffu ar yr adroddiad.

87. **EITEMAU BRYS**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:20